| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD: | **3 Rhagfyr 2013** |
| TEITL: | **Adroddiadau Archwilio Allanol** |
| PWRPAS / ARGYMHELLIAD: | **Cyflwyno'r trefniadau adrodd er ystyriaeth y Pwyllgor Archwilio** |
| AWDUR: | **Geraint George, Pennaeth Strategol a Gwella** |
| AELOD CABINET: | **Cynghorydd Dyfed Edwards** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Un o brif ddyletswyddau'r Pwyllgor Archwilio yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, yw **adolygu ac asesu trefniadau'r awdurdod ar gyfer rheoli risgiau, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol**. Mae'r Canllawiau Statudol a gyhoeddwyd yn unol â'r Mesur yn datgan bod angen i'r Pwyllgor, er mwyn cyflawni hyn:

- "*adrodd ar ddigonolrwydd trefniadau rheoli risgiau a rheolaeth fewnol yr awdurdod a gwneud sylwadau ar eu heffeithiolrwydd yn ogystal â gwneud gwaith dilynol ar y risgiau a nodwyd gan archwilwyr a gofyn am adroddiadau ar y camau a weithredwyd mewn ymateb*"; a
- "*bydd angen i'r awdurdod sicrhau nad yw gwaith yn cael ei ddyblygu'n ddianghenraid rhwng y pwyllgor archwilio ac unrhyw bwyllgor trosolwg a chraffu wrth ystyried adroddiadau o'r fath*".

1.2 Mae'r canlynol yn enghreifftiau o adroddiadau archwilio allanol:

- Adroddiadau ESTYN, CyMAL, Archifau Cenedlaethol
- Adroddiadau gan yr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)
- Adroddiadau Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru (SAC)
- Adroddiadau Achlysurol Swyddfa Archwilio neu gan gyrff archwilio eraill

1.1 Yn y gorffennol, cyflwynwyd cofrestr gyflawn o adroddiadau archwilio allanol i'r Pwyllgor Archwilio bob chwe mis i hwyluso gwaith y Pwyllgor a'i alluogi i gydymffurfio â'r gofyn i gadw trosolwg ar weithredu argymhellion yr adroddiadau a rhoi crynodeb byr i'r Cabinet.

1.2 Bellach, er mwyn cryfhau gallu'r Pwyllgor Archwilio i ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig, bwriedir canolbwyntio ar y prif adroddiadau sef:

- Adroddiadau ESTYN
- Adroddiadau AGGCC
- Adroddiadau Blynyddol SAC

Byddai'r gofrestr gyflawn yn parhau ar gael i aelodau drwy gysylltu â mi.

1.5 Awgrymir hefyd y dylid trafod trefniadau craffu a dal i gyfrif yr adroddiadau uchod yng nghyfarfod nesaf y Fforwm Cadeiryddion Craffu. Mae angen cryfhau trefniadau llywodraethu a chraffu'r prif adroddiadau hyn gan osgoi unrhyw ddyblygu neu aneglurder yn y maes. Gellid adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Archwilio nesaf unrhyw argymhellion am drefniadau cadarn ac addas i bwrpas.

## 2. ARGYMHELLIAD

2.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio

i) Gymeradwyo'r drefn newydd o adrodd a chanolbwyntio ar y prif adroddiadau a nodir

ii) Gymeradwyo'r cynnig i drafod y dull gorau o graffu a dal i gyfrif y prif adroddiadau yng nghyfarfod nesaf y Fforwm Cadeiryddion Craffu 13 Rhagfyr.